*This document is available in English* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **28 Ebrill 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Amherthnasol** |
| Swyddog Cyswllt | **Gwasanaethau Aelodau** (members.services@northwalesfire.gov.wales) |
| Pwnc | **Adroddiad y Cadeirydd** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad chwarterol hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) iddynt yn rhinwedd eu swyddi rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2025.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynd i nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau, yn fewnol ac yn allanol, ar ran yr Awdurdod.

**ARGYMHELLIAD**

3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) nodi'r wybodaeth a roddwyd.**

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

**GWYBODAETH**

5 Yn ogystal â'r cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd hefyd wedi cwrdd â'r Prif Swyddog Tân (PST) yn rheolaidd.

6 Ar 17 Ionawr cafodd y Cadeirydd a'r PST gyfarfod ar-lein gydag Arweinwyr Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru er mwyn eu briffio am gynigion cyllideb ac am faterion perthnasol eraill.

7 Ar 3 Chwefror aeth y Cadeirydd a'r PST i gyfarfod y Bartneriaeth Gymdeithasol a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd.

8 Ar 10 Chwefror aeth y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd, ac aelodau eraill o'r Awdurdod, i gyflwyniad gan CREST ar yr Adolygiad Annibynnol o'r Diwylliant.

9 Ar 18 Chwefror aeth y Cadeirydd ac aelodau eraill o'r Awdurdod i gynhadledd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Tanio yn y Kinmel Manor.

10 Ar 23 Chwefror aeth y Cadeirydd i gyfarfod o Bwyllgor Undeb y Brigadau Tân yng Ngorsaf Dân Llandudno.

11 Ar 26 Chwefror aeth y Cadeirydd i ddigwyddiad Cymraeg Tanio yng Ngorsaf Dân y Rhyl.

12 Ar 26 Chwefror cafodd y Cadeirydd a'r Cynghorydd Mark Young gyfarfod ag uwch gynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân yng Ngorsaf Dân y Rhyl.

13 Ar 7 Mawrth aeth y Dirprwy Gadeirydd i seremoni wobrwyo Ffenics ar gyfer disgyblion Ysgol Friars yng Ngorsaf Dân Llanfairfechan.

14 Ar 12 Mawrth aeth y Cadeirydd i Gynhadledd Tân ac Achub y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) yn Gateshead. Roedd y PST a'r PSTC Ant Jones yno hefyd.

15 Ar 17 Mawrth cafodd y Cadeirydd a'r PST gyfarfod ar-lein gydag Ysgrifennydd y Cabinet, Jayne Bryant. Roedd Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân o Awdurdodau Tân ac Achub eraill Cymru yno hefyd.

16 Ar 27 Mawrth bu'r Cadeirydd a'r Cynghorydd Sharon Doleman yn arsylwyr mewn gweithdy lle'r oedd uwch gynrychiolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn dechrau llunio Cynllun Gwella mewn ymateb i ganfyddiadau'r Adolygiad Annibynnol o'r Diwylliant.

17 Ar 28 Mawrth aeth y Dirprwy Gadeirydd i seremoni wobrwyo Ffenics ar gyfer disgyblion Ysgol Ardudwy yng Ngorsaf Dân Harlech.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae aelodau'n mynd iddynt yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Does dim risgiau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |